**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1377
Ein cyf/Our ref JJ/02899/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Tachwedd 2023

Annwyl Jack Sargeant AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Hydref ynglŷn â'r datblygiad fferm solar arfaethedig ar Fferm Penyfodau, Gŵyr.

Mae'r cynnig, a adwaenir fel "Parc Solar Caenewydd", wedi cael ei dderbyn gan Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ("PCAC") fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ("DNS") ac mae ar y cam cyn-ymgeisio.

Mae'r broses DNS yn drwyadl ac yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, rhanddeiliaid a'r awdurdod lleol. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gynnal gwaith ymgynghori ac ymgysylltu cyn-ymgeisio statudol, sy'n rhoi cyfle cynnar i gymunedau ymgysylltu â phrosiect a gwneud sylwadau arno. Pan gyflwynir cais, bydd yn destun ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd ychwanegol. Mae arweiniad ar y broses, ymgynghoriadau, sut mae cynigion yn cael eu harchwilio a chanllaw ar gyfer cymunedau, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://www.llyw.cymru/datblygiadau-o-arwyddocad-cenedlaethol-dns-canllawiau.

Pan gyflwynir cais DNS i PCAC, penodir Arolygydd Cynllunio annibynnol i asesu'r cynnig. Bydd yr Arolygydd yn rhoi adroddiad gyda chyngor ac argymhellion i'w hystyried gan Weinidogion Cymru. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud y penderfyniad terfynol ar geisiadau DNS.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ganlyniad i'm rôl fel Gweinidog sy'n gyfrifol am benderfynu ar geisiadau DNS, ni fyddai'n briodol i mi wneud sylwadau ar yr achos, er mwyn peidio â rhagfarnu'r penderfyniad terfynol ar y cais.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change